

## **URDD GOBATH CYMRU**

### **Cytundeb Ymddygiad Adrannau / Aelwydydd Cytundeb ar gyfer rhieni ac aelodau.**

#### **Cyflwyniad**

Cynhelir Adrannau ac Aelwydydd yn enw'r Urdd ar gyfer aelodau o bob oed. Er mwyn sicrhau llwyddiant y rhain rhaid sicrhau ymddygiad a disgyblaeth derbyniol.

Nid ydym yn gosod rheolau ymddygiad a disgyblaeth caeth sydd yn debygol o ddifetha mwynhad yr aelodau, ond er mwyn dilyn canllawiau iechyd a diogelwch a gwneud yn siŵr bod bawb yn cael amser da mewn awyrgylch saff rhaid gosod rhai canllawiau ychwanegol. Disgwylir i bawb ddilyn y rheolau canlynol.

Un o'r prif rhesymau dros sefydlu Adrannau ac Aelwydydd yw sicrhau cyfleoedd i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r gyfundrefn Addysgol ac **oherwydd hyn nodwn mai'r Gymraeg yw iaith yr Adran/Aelwyd**. Anogir dysgwyr y Gymraeg i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur.

#### **Cyfrifoldeb Aelodau**

1. Cofio defnyddio'r Gymraeg.
2. Rhaid parchu hawliau eraill ac ymddwyn mewn ffordd sydd ddim yn ymosodol, bygythiol nac yn debygol o aflonyddu ar bobl eraill.
3. Dylid parchu eiddo, deunyddiau a chyfarpar eraill yn y grŵp yn ogystal ac eiddo'r Adran/Aelwyd ac unrhyw ganolfannau yr ydym yn ymweld â nhw.
4. Mae Arweinyddion yr Adran/Aelwyd yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol a disgwylir i aelodau ddangos parch a chwarteisi tuag atynt.
5. Disgwylir i aelodau adrodd i'r Arweinyddion am unrhyw broblemau gall amharu ar rhediad yr Adran/ Aelwyd e.e. achosion o bwlio, damweiniau, difrod i offer ac ati.
6. Rhaid rhoi gwybod i Arweinyddion yr Adran/Aelwyd am unrhyw anghenion arbennig sydd gan aelod.
7. Ble codi'r tâl wythnosol disgwylir i hyn gael ei dalu yn rheolaidd neu trwy un taliad ar ddechrau tymor.
8. Ble trefnir gweithgareddau y tu allan i man cyfarfod arferol yr Adran/Aelwyd, e.e. teithiau, disgwylir i aelodau ddilyn y rheolau a osodir (gweler Cytundeb Teithiau)
9. Disgwylir i aelodau yr Adran/Aelwyd talu eu tal Aelodaeth ar ddechrau'r flwyddyn aelodaeth (Medi hyd Awst) ac felly rhaid bod yn aelod gyfredol o'r Urdd.

#### **Disgyblu**

1. Bydd ymddygiad unrhyw blentyn a ystyrir i fod yn berygl iddo ef/hi neu sydd yn amharu ar eraill yn y grŵp yn golygu y gall golli gweithgaredd.
2. Gofynnir ichi fynd trwy'r rheolau yma gyda'ch mab/merch a chadarnhau y còd ymddygiad' sy'n ddisgwyliedig ganddynt.
3. Bydd angen i rieni/gofalydd a aelod lofnodi telerau ymddygiad yr Adran/Aelwyd. Os nad ydy'r person ifanc yn cadw at y telerau hyn, bydd rhaid i ni gymryd camau er mwyn sicrhau fod yr aelodau yn cael eu cadw yn ddiogel.
4. Mewn sefyllfa o gamymddwyn rheolaidd gall hyn olygu diarddel aelod o'r Adran am gyfnod penodol. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad a'r Swyddog Datblygu Lleol. Unwaith i'r cyfnod yma ddod i ben bydd hawl gan yr aelodau i ail ymuno a'r Adran/Aelwyd ond bydd gofyn iddynt ail lenwi cytundeb ymddygiad.

**Rydw i wedi darllen a deall y telerau uchod. Rydw i yn derbyn bod rhaid i mi gadw at y telerau yma er mwyn fy niogelwch i a diogelwch eraill o'm cwmpas.**

Enw Plentyn ..... Llofnod.....

Enw Rhiant/Gofalwr..... Llofnod.....

Dyddiad .....